# Cyngor Gwynedd yn diffodd ei oleuadau i gefnogi Awr Ddaear 2018

Mae Cyngor Gwynedd yn paratoi i ymuno â miliynau o bobl, dinasoedd, cymunedau a thirnodau o gwmpas y byd i gefnogi ymgyrch Awr Ddaear 2018.

Ar nos Sadwrn, Mawrth 24 2018 am 8.30yh bydd yr awdurdod lleol yn diffodd goleuadau ei bencadlys yng Nghaernarfon am awr. Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o arddangosiad gweledol byd-eang o ymrwymiad i fynd i’r afael â materion amgylcheddol sy’n galw am sylw ar frys ac i warchod ein planed.




Yma yng Nghymru, mae oddeutu hanner miliwn o bobl yn cymryd rhan yn y digwyddiad bob blwyddyn. Eleni, mae’r elusen yn rhoi’r cyfle i bobl wneud addewid #PromiseForThePlanet i newid un peth yn eu bywydau pob dydd a fydd yn helpu i warchod ein planed, a’i gofnodi ar eu gwefan.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet dros Amgylchedd: “Fel Cyngor, rydym yn hynod o falch i gefnogi Awr Ddaear WWF unwaith eto eleni. Mae’r digwyddiad blynyddol hwn yn ddathliad byd-eang o’n planed ac yn cydfynd â’n hymrwymiad fel Cyngor i leihau ein defnydd ynni a’n ôl-troed carbon.”

Ers cyflwyno ei Gynllun Rheoli Carbon yn 2010, mae Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i arbed £XXm a XX tunnell o CO2 drwy gyflwyno mesurau i leihau defnydd ynni o’i weithgareddau.

Ychwanegodd y Cyng. Meurig: “Mae gennym i gyd rôl i’w chwarae wrth fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd, a gyda’n gilydd, mae gennym y gallu i wella ein planed. Felly rydyn ni’n edrych ymlaen at ddiffodd y goleuadau yn ein pencadlys am 8.30yh ar nos Sadwrn Mawrth 24 i ddangos ein cefnogaeth tuag at yr achos teilwng hwn.”

**Dywedodd Anne Meikle, Pennaeth WWF Cymru**: “Rydyn ni wrth ein bodd bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi Awr Ddaear WWF eleni. Mae'r bywyd gwyllt yr ydym yn caru, o adar y pâl i eirth gwyn, mewn perygl o effeithiau newid hinsawdd, llygredd a gorddefnydd.

"Dyna pam eleni, yn ogystal â throi goleuadau bant ar 24 Mawrth, rydym yn gofyn i bobl gymryd cam bach i leihau eu heffaith ar y blaned. Gall pawb - unigolion, busnesau grwpiau yn y gymuned - gwneud Addewid am y Blaned gyda #PromiseForThePlanet ag ar [www.wwf.org.uk/earthhourwales](http://www.wwf.org.uk/earthhourwales).”

Gall pawb ymuno ag Awr Ddaear WWF. I gael mwy o wybodaeth ac i wneud addewid, ewch i [www.wwf.org.uk/awrddaear](http://www.wwf.org.uk/awrddaear)

- DIWEDD -